# Swydd-ddisgrifiad Staff Cymorth

| | |
|---|---|
| **Teulu swyddi:** | **Polisi ac Ymchwil** |
| **Band cyflog:** | **Band 3** |
| **Ystod cyflog:**<br>**(pro-rata)** | **£26,345 - £33,873**<br>Disgwylir i bob aelod newydd o staff ddechrau ar raddfa isaf y band priodol. Bydd staff unigol, yn amodol ar berfformiad boddhaol, yn symud i fyny'r raddfa bob blwyddyn ar y dyddiad y gwnaethant ddechrau yn eu swydd nes eu bod yn cyrraedd yr uchafswm graddfa ar gyfer eu band. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Cynorthwyydd Polisi ac Ymchwil** |
| **Cyfeirnod:** | MBS-153-26 |
| **Swyddfa:** | **Sam Rowlands AS** |
| **Oriau gwaith:** | **37 awr yr wythnos**<br>Bydd angen gweithio rhywfaint gyda'r nos ac ar benwythnosau. |
| **Natur y penodiad:** | **Cyfnod penodol am 12 mis (darpariaeth gyflenwi yn ystod cyfnod mamolaeth)**<br>Fel Aelod o'r Senedd, rwyf yn dal swydd fel cynrychiolydd etholedig. Pan fydd fy nghyfnod fel Aelod o'r Senedd yn dod i ben, bydd y swydd hon yn dod i ben.<br>Os bydd Arweinydd y Grŵp yn newid, neu os bydd nifer Aelodau'r Grŵp yn newid, mae'n bosibl y daw'r swydd hon i ben. |
| **Lleoliad:** | **Senedd**<br>Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y rôl deithio i wneud gwaith o bryd i'w gilydd. |

| **Gwybodaeth ychwanegol:** |
|---|
| Rwy'n gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw ymgeisydd addas, gan gynnwys pobl â'r nodweddion gwarchodedig a ganlyn: hil, rhywedd, anabledd, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth neu oedran. |
| Sylwer, bydd y penodiad yn amodol ar eirdaon a gwiriad diogelwch. |

# Ynglŷn â’r rôl

| **Polisi ac Ymchwil** |
|---|
| Mae deiliaid swyddi Polisi ac Ymchwil yn gyfrifol am wneud gwaith ymchwil neu ddadansoddi ar faterion penodol, neu amrywiaeth o faterion, er mwyn rhoi gwybodaeth berthnasol i’r Aelodau neu’r Grwpiau. Ar brydiau, bydd angen darparu argymhellion neu opsiynau pragmatig sy'n canolbwyntio ar weithredu ar gyfer ymdrin â’r mater dan sylw. Bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal ar lefel sy'n briodol i'r radd.<br>**Mae’r prif nodweddion fel a ganlyn:**<br>• Nodi canlyniadau ac effeithiau posibl drwy graffu ar waith Llywodraeth Cymru a chyrff eraill.<br>• Dadansoddi problemau, cynhyrchu opsiynau a gwerthuso.<br>• Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a llunio polisi.<br>• Gweithio mewn partneriaeth (yn fewnol ac yn allanol) i wneud gwaith ymchwil; dylanwadu ar ddogfennau polisi, strategaethau ac arferion gwaith; ac amlinellu goblygiadau dylanwadau allanol a thueddiadau fel datblygiadau mewn deddfwrfeydd eraill. |
| **Diben y swydd** |
| Bydd **Swyddog Polisi ac Ymchwil Band 3** sy’n gweithio i Aelod o'r Senedd yn cefnogi'r Aelod drwy wneud gwaith ymchwil, drafftio papurau briffio polisi, a helpu gyda gwaith y Senedd. |

# Manyleb y person

| Sgiliau ac ymddygiadau |
|---|
| • Sgiliau ymchwil a dadansoddi, gan gynnwys y gallu i grynhoi gwybodaeth.<br>• Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig da i ddrafftio adroddiadau a phapurau briffio polisi.<br>• Disgwylir bod yn hyddysg gyda'r adnoddau a'r offer arferol ar gyfer y swydd e.e. pecynnau meddalwedd safonol, a bod yn gyfarwydd â'r cyfryngau ar-lein.<br>• Dealltwriaeth o'r angen i frwydro yn erbyn gwahaniaethu ac i hyrwyddo cyfle cyfartal ac Egwyddorion Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus, ac ymrwymiad i'r materion hyn.<br>• Y gallu i weithio ar y cyd fel rhan o dîm bach. |
| **Gwybodaeth a phrofiad** |
| • Ymwybyddiaeth wleidyddol, gan ddilyn materion cyfoes a pholisïau'r blaid.<br>• Sylw i fanylion, gan sicrhau cywirdeb mewn dogfennau ymchwil a pholisi. |
| **Meini prawf dymunol** |
| • Dealltwriaeth o faterion cyfoes a phynciau sy'n berthnasol i Gymru a'r ardal leol, a diddordeb yn system wleidyddol Cymru.<br>• Yn arddel amcanion a gwerthoedd y blaid.<br>• Gwybodaeth am y gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig â diogelu data a diogelwch gwybodaeth.<br>• Profiad a dealltwriaeth ymarferol o'r gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant, gan gynnwys asesiadau risg, mesurau rheoli, a gwybod pryd i geisio cyngor cymwys. |
| **Cymwysterau** |
| • Y gallu i ddangos gwybodaeth neu brofiad o ystod o weithdrefnau gwaith yn seiliedig ar brofiad gwaith perthnasol a/neu gymhwyster galwedigaethol – e.e. NVQ lefel 3 neu 4 neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol.<br>• Tystiolaeth o sgiliau rhifedd a llythrennedd e.e. TGAU Saesneg / Cymraeg a Mathemateg (neu gymwysterau cyfatebol) Gradd C neu uwch, neu brofiad arall addas. |
| **Sgiliau iaith** |
| • Dymunol / Heb fod yn hanfodol: Cymraeg Cwrteisi – y gallu i ynganu enwau Cymraeg; ateb y ffôn; deall ymadroddion cyfarwydd bob dydd, yn Gymraeg. |

# Prif ddyletswyddau

| Ymchwil a pharatoi papurau briffio |
|---|
| • Gwneud gwaith ymchwil cefndirol ar faterion polisi, deddfwriaeth a phryderon etholaethol.<br>• Paratoi nodiadau briffio cryno cyn dadleuon, cyfarfodydd neu areithiau.<br>• Monitro datblygiadau ym mholisïau'r Llywodraeth, adroddiadau pwyllgorau a dadleuon y Senedd. |
| **Gwaith yn y Senedd ac ysgrifennu areithiau** |
| • Drafftio a chyflwyno cwestiynau’r Senedd a llythyrau at Weinidogion.<br>• Paratoi areithiau, cynigion ac erthyglau.<br>• Olrhain biliau, gwelliannau, a pholisïau'r Llywodraeth sy'n effeithio ar yr etholaeth neu'r blaid. |
| **Ymgysylltu ag etholaethau a rhanddeiliaid** |
| • Helpu’r Aelod a chydweithwyr i ymgysylltu ag etholwyr, grwpiau buddiant a rhanddeiliaid.<br>• Cynorthwyo’r gwaith o drefnu a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd gyda lobïwyr, ymgyrchwyr neu arbenigwyr polisi.<br>• Drafftio ymatebion i ymholiadau sy'n ymwneud â pholisïau gan etholwyr neu sefydliadau lleol. |
| **Cyfathrebu cyhoeddus** |
| • Monitro’r newyddion a’r cyfryngau cymdeithasol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau perthnasol neu bryderon y cyhoedd.<br>• Cynorthwyo’r gwaith o gydlynu ymddangosiadau cyhoeddus a chyfweliadau'r Aelod ar faterion polisi.<br>• Cynorthwyo i hybu gwaith yr Aelod ar blatfformau’r cyfryngau cymdeithasol. |
| **Cymorth gweinyddol** |
| • Cynnal cronfa ddata ymchwil drefnus y gellid cyfeirio ati.<br>• Cynorthwyo’r broses o ddrafftio adroddiadau, ymatebion i ymgynghoriadau, a chyflwyniadau ysgrifenedig.<br>• Gweithio gyda chydweithwyr i gydgysylltu gohebiaeth a dyddiadur yr Aelod. |

| Rhwymedigaethau yn y gweithle |
|---|
| **Diogelu data / diogelwch gwybodaeth:**<br>• Cefnogi'r Aelod  i gydymffurfio â'i rwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu data a diogelwch gwybodaeth, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.<br>**Iechyd, diogelwch a llesiant:**<br>• Cefnogi’r Aelod i gydymffurfio â'i rwymedigaethau sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.<br>**Diogelu:**<br>• Cefnogi'r Aelod i gydymffurfio â'i rwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion sy’n agored i niwed, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol. |
| **Arall** |
| • Gweithredu o fewn y gyfraith a’r fframweithiau rheoleiddio y mae’r Aelodau a’r Grwpiau'n gweithredu o’u mewn, gan gynnwys fframweithiau'r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati) a fframweithiau ehangach a chyffredinol (dyletswyddau cyfreithiol).<br>• Cyflawni dyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r band hwn, yn ôl yr angen, i gefnogi'r Aelod. |